WILLIAMS, HUGH ('Cadfan '; 1807? - 1870), argraffydd a newyddiadurwr

Enw: Hugh Williams
Ffugenw: Cadfan
Dyddiad geni: 1807?
Dyddiad marw: 1870
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: argraffydd a newyddiadurwr
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi
Awdur: Hywel David Emanuel

Ganwyd ym Mryncrug, ger Towyn, Sir Feirionnydd. Bwriodd ei brentisiaeth o dan Richard Jones, argraffydd, Dolgellau, a daeth yn enwog fel ysgrifennwr galluog ac fel dadleuwr ac amdiffynnydd selog i'r Eglwys Wladol. Ym mis Ionawr 1848, dechreuodd olygu ac argraffu papur eglwysig yn dwyn yr enw *Y Cymro*, a gyhoeddwyd i ddechrau ym Mangor. Yng Ngorffennaf 1849, trosglwyddodd berchenogaeth y papur i Shone, ond parhaodd fel golygydd hyd nes y symudwyd y papur i Lundain fis Hydref 1850. Ceir ' Cadfan ' yn nesaf yn Llundain yn dal swydd darllenydd yng ngwasanaeth y cyhoeddwr John Cassell. Yr oedd yn gyfeillgar â John Jones ('Talhaiarn') a William Jones ('Gwrgant'). a bu'n ysgrifennydd 'Cronfa Blwydd-dâl Talhaiarn' yn ystod 1863-5. Ceir papurau yn ymwneud â'r gronfa yn ogystal â llythyr yn llaw 'Cadfan' yn NLW MS 4511C . Yr oedd hefyd yn warden yr eglwys Gymraeg yn Llundain am flynyddoedd lawer. Yn 1870, dewiswyd ef yn olygydd cyntaf y papur Cymraeg eglwysig a elwid *Y Dywysogaeth*, ond bu farw 11 Gorffennaf 1870; cladwyd ef ym mynwent y Rhyl. 'Cadfan' oedd awdur *Caban F'Ewyrth Twm*, cyfieithiad Cymraeg o *Uncle Tom's Cabin*, a gyhoeddwyd gan Cassell yn 1853 gyda darluniau gan Cruickshank, a hefyd *Llyfr Gweddi i Dŷ Gweddi*, cyfieithiad Cymraeg o waith gan W. B. Stevens, diwinydd Americanaidd.

Awdur

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

Ffynonellau

Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties, 1897, 45, 64, a 162-3

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

T. M. Jones, *Llenyddiaeth fy Ngwlad: sef hanes y newyddiadur a'r cylchgrawn Cymreig yn Nghymru, America, ac Awstralia, yn nghyd a'u dylanwad ar fywyd cenedl y Cymry* (Treffynnon 1893), 20

Yr Haul, 1870, 256

Baner ac Amserau Cymru, 20 Gorffennaf 1870

Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries (1898), 517

Archifau LlGC: NLW MS 4511C: The 'Talhaiarn' Testimonial Fund

H. Blackwell, NLW MS 9276A: A Dictionary of Welsh Biography 9276 (431)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q27972098

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Emanuel, H. D., (1953). WILLIAMS, HUGH ('Cadfan '; 1807? - 1870), argraffydd a newyddiadurwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILL-HUG-1807

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGELL THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government